***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

### *Gwrandawiadau a phenderfyniadau*

**Gwysio tyst**

**48.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (5), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, pan wneir cais gan barti neu ar gymhelliad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hunan, ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs bresenoldeb unrhyw berson fel tyst mewn gwrandawiad, ar y cyfryw adeg ac yn y cyfryw le a bennir yn y wŷs ac mewn unrhyw ohiriad o'r gwrandawiad hwnnw neu o weddill y gwrandawiad hwnnw, ac yn y gwrandawiad, ei fod yn ateb unrhyw gwestiynau neu'n dangos unrhyw ddogfennau neu ddeunydd arall a gedwir gan, neu sydd o dan reolaeth, y person hwnnw ac sy'n ymwneud ag unrhyw fater dan sylw yn yr apêl neu'r hawliad.

(2) Rhaid peidio â gorfodi unrhyw berson i roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall, na ellid gorfodi'r person i'w rhoi neu i'w dangos mewn treial o achos mewn llys barn.

(3) Wrth arfer y pŵer a roddir gan y rheoliad hwn, rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys gymryd i ystyriaeth yr angen i ddiogelu unrhyw fater sy'n ymwneud ag amgylchiadau personol agos neu amgylchiadau ariannol, neu sy'n cynnwys gwybodaeth a fynegwyd neu a gafwyd yn gyfrinachol.

(4) Ni cheir ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs bod person yn bresennol oni roddwyd o leiaf 5 niwrnod gwaith o rybudd o'r gwrandawiad i'r person hwnnw, neu, os rhoddwyd llai na 5 niwrnod gwaith, oni fydd y person wedi rhoi gwybod i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys fod y person yn derbyn y rhybudd a roddwyd.

(5) Ni cheir ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs bod person yn bresennol ac yn rhoi tystiolaeth neu'n dangos unrhyw ddogfen, oni fydd swm o arian wedi ei dalu neu'i gynnig, sy'n rhesymol ddigonol i dalu treuliau angenrheidiol presenoldeb y person hwnnw.

(6) Rhaid i barti sy'n gofyn am wŷs tyst wneud cais ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, o leiaf 8 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad, neu'n ddiweddarach os yw'r person y cyfeirir y wŷs ato yn cydsynio mewn ysgrifen.

(7) Rhaid i wŷs tyst gynnwys—

(a) mewn perthynas ag apêl, datganiad bod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i fod yn bresennol i roi tystiolaeth ac, os

gofynnir am hynny yn y wŷs, i ddangos dogfennau, yn atebol o dan adran 336 o Ddeddf 1996, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol;

(b) mewn perthynas â hawliad, datganiad bod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i fod yn bresennol i roi tystiolaeth ac, os gofynnir am hynny yn y wŷs, i ddangos dogfennau, yn atebol o dan baragraff 6(8) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol; a

(c) datganiad o effaith paragraff (8).

(8) Caiff person y cyfeirir gwŷs tyst ato wneud cais i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys, drwy roi hysbysiad i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, i amrywio'r wŷs neu'i gosod o'r neilltu.

(9) Rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys beidio ag amrywio na gosod o'r neilltu wŷs tyst heb yn gyntaf hysbysu'r parti a wnaeth gais am ddyroddi'r wŷs tyst ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y parti hwnnw.